**Cofnodion o gyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 17 o Fedi 2019 yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Phil Roberts (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Martin Jones, Richard Robinson, Hefin Jones, Goronwy Hughes, Beca Brown, Gwion Llwyd, Iola Parry.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd, Haf Williams, Clifford Williams, Cemlyn Jones.

**Hefyd yn bresennol**:

Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.
Y Parchedig Robert Townsend ar gyfer eitem 488 yn unig

**Clerc:** Meirion Jones

**473. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

**474. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodir uchod

**475. Datgan buddiant personol.**

Cynghorydd Richard Robinson (eitem 490 a) oherwydd ei fit yn ffinio ac eiddo'r cais ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth

Cynghorydd Iola Parry (eitem 490 d) oherwydd fod ei gŵr yn gweithio i'r cwmni sydd yn cyflwyno'r cais cynllunio ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth

**476. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 20 Awst 2019**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**477. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

**a) Eitem 467**

Adroddwyd fod y Clerc wedi ysgrifennu at y teulu ac at y contractwr torri gwair i ddwyn y mater i'w sylw ond doedd dim ymateb wedi dod yn ôl.

**b) Eitem 468**

Adroddwyd fod y mater wedi ei ddwyn i sylw Cyngor Gwynedd ac ei fod wedi ei roi i'r arolygwr. Unwaith byddai ef wedi gwneud ei archwiliad

byddai yn cysylltu yn ôl. Adroddwyd hyd yma, nid oedd y cyngor cymuned wedi derbyn dim gwybodaeth.

**c) Eitem 469**

Adroddwyd fod y mater wedi ei ddwyn i sylw Cyngor Gwynedd ond hyd yma ddim wedi derbyn ymateb. Adroddodd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, fod newid yn nhrefniadau casglu ysbwriel ar y gweill ac yn ôl y dystiolaeth yn ble mae'r drefn newydd wedi ei fabwysiadu, mae niferoedd o gwynion cyffelyb yn gostwng yn sylweddol.

**d) Eitem 470**

Adroddwyd fod y mater wedi ei ddwyn i'r Adran Gynllunio ac i'r Adran Briffyrdd ac fod ymateb wedi dod gan yr Adran Briffyrdd yn cadarnhau fod yr Adran Gynllunio yn edrych i fewn iddo.

**478. I dderbyn datganiad o dderbyn swydd aelodau newydd.**

Nodwyd fod Y Cynghorydd Gwion Llwyd a'r Cynghorydd Iola Parry wedi arwyddo eu datganiad o dderbyn swydd. Fe'i llongyfarchwyd ar ddod yn aelodau o'r cyngor cymuned.

**479. I dderbyn adroddiad gan y Cadeirydd ar ei ymweliad diweddar a'r Llu Awyr yn y Fali**

**480. Ceir yn gyrru ar hyd Ffordd yr Orsaf, Llanrug ynghyd a Ffordd Minffordd**

Adroddwyd fod cwyn wedi ei dderbyn am geir yn gyrru ar hyd Ffordd yr Orsaf.

**Penderfynwyd:** Cyfeirio'r mater at yr heddlu a gofyn am bresenoldeb yr heddlu yn un o gyfarfodydd y cyngor cymuned yn y dyfodol

**481. I ystyried cwyn a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd am gyflwr y wal wrth droed y byngalo Awelfa. Nodwyd fod person wedi trawo ei gar yn y wal.**

Nodwyd fod cwyn wedi ei dderbyn fod carreg yn y wal yma yn ymestyn i'r maes parcio ac fod gyrrwr car wedi cael difrod i'w gar o'i herwydd.

**Penderfynwyd:** Oherwydd fod y garreg yn ran o sylfaen y wal yna ni ellir ystyried gwneud dim am y garreg.

**482. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

**483. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

**<u>Hafan Elan</u>**

<u>Cais Cynllunio: C19/0765/23/LL</u>

Ar 12 Mawrth mynychais gyfarfod rhwng Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) a thrigolion Stad Hafan Elan. Pwrpas y cyfarfod oedd codi pryderon trigolion y stad ynglŷn â diffyg mannau parcio a gofyn i CCG ystyried creu mannau parcio ychwanegol. Dywedodd rheolwr gyda CCG y byddai'n edrych ar yr hyn sy'n bosibl yn y tymor byr a'r tymor hir. Addawodd y byddai'n cadw'r trigolion a minnau yn y llun ynglŷn ag unrhyw ddatblygiad ar y mater.

Y diweddaraf (15 Awst) yw fod Adran Rheoli Tir CCG wedi cyflwyno cais cynllunio i Cyngor Gwynedd yn gofyn am ganiatâd i wneud rhagor o lefydd parcio yn Hafan Elan.
Mae'r cynllun yn paratoi 22 llefydd parcio yn hytrach na'r 10 presennol. Mae hyn yn newyddion da i'r trigolion a'r ymwelwyr i'r stad.

**<u>Gor-yrru, Ffordd yr Orsaf</u>**

Yn dilyn ceisiadau yn ddiweddar i ostwng uchafswm cyflymder ar Ffordd yr Orsaf yn arbennig, gofynnais i'r Uned Traffig ystyried hyn unwaith eto. Dyma'r ateb a dderbyniais o'r Uned:

*Annwyl Cynghorydd Charles Wyn Jones,*

*Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar y posibiliadau o newid y cyfyngiad cyflymder ar gyfer pentrefi a.y.b o 30 mya i 20 mya ac felly tan yr ydym yn derbyn arweiniad pellach gan y Llywodraeth, fyddwn yn gohirio unrhyw benderfyniad ynglŷn a newid cyfyngiadau cyflymder yn Ngwynedd. Rhaid nodi mai mater i'r Heddlu yw gor-yrru yn y bôn ac felly yn y cyfamser awgrymaf fod pobl yn cysyllu â'r Heddlu yn lle cyntaf.*

*Yn gywir*

**<u>Llwybr troed rhwng Stad Glanffynnon a Ffordd Llanberis</u>**

Gofynnais yn ddiweddar a allai Cyngor Gwynedd roi pwysau ar berchennog yr hen Garej Hafod i ddod â'r llwybr troed i fyny i safon. Hefyd, a fyddai'n bosibl i'r Cyngor brynu'r llain o dir yn orfodol gan y perchennog gyda'r bwriad o ddod â'r llwybr i fyny i safon. Dyma'r atebion a gefais gan yr Uned Drafnidiaeth a hefyd yr Uned Gynllunio:

*Annwyl Cynghorydd,*

*Cyfeiriaf at eich ymholiad diweddar ac ymddiheuraf am yr oedi mewn ymateb ichi.*
*Yn anffodus nid yw'n bosibl i'r Uned Drafnidiaeth gorfodi'r perchennog i greu'r llwybr, fodd bynnag efallai mai modd i'r Uned Cynllunio roi pwysau arno os yw'n rhan o'r oblygiadau o dan y caniatâd cynllunio i'r safle.*

*Wedi imi drafod yr ymholiad o brynu'r llwybr o dan 'compulsory purchase' gyda'r Uned Draffig deallaf tydi hynny ddim yn opsiwn ychwaith. Nid oes cyllid ar gyfer pryniant ac i uwchraddio'r llwybr, a rhaid cadw meddwl mai cyfrifoldeb y tirfeddiannwr yw cynnal, cadw ac uwchraddio'r tir, nid y Cyngor.*

*Wedi imi daro golwg ar y llwybr yn ddiweddar nodais fod angen gwaith sylweddol i'w huwchraddio i gyflwr mabwysiedig. I'w fabwysiadau mi fuasai'n ofynnol i ddarparu llwybr troed sy'n hygyrch i bawb ac ar hyn o bryd mae amryw o rwystrau'n bodoli arno. Dyma restr fras o bethau sydd angen sylw:*

*O gyfeiriad y ffordd fawr mae adwy'r llwybr wedi ei rhwystro gan bostyn BT neu Manweb. Mae angen ail-leoli'r postyn neu gwyro ceg y llwybr i leoliad sy'n caniatáu mynediad dirwystr.*

.

*Mae wyneb y llwybr yn dameidiog - rhannau ohono 'n tarmac, rhannau eraill yn wastraff llechi. Angen ail-wynebu'r cwbl er mwyn cael wyneb cyson ac o safon dderbyniol i'w fabwysiadu.*

*Presenoldeb 'step' uchder cwrb - yn ddeniadol mae angen dileu'r rhwystr yma trwy adeiladu ramp er mwyn hwyluso defnydd coets neu gadair olwyn.*

*Gordyfiant ar hyd ymylau'r llwybr angen ei drin. Cyflwr y llwybr o dan y tyfiant yma ddim yn amlwg.*

*Mae'r troad lawr i stad Glanffynnon ddim yn cyrraedd safonau mabwysiadu. Angen creu 'transition' gwell lawr i'r stad, i gysylltu'r llwybr cyswllt gyda'r palmant mewn modd sy'n hwylus i goets a chadair olwyn.*

*Tydi'r terfynau, sef y ffensys pren a ffensys Heras ddim yn fater i'w hystyried o dan y broses mabwysiadu. Mae terfynau gwastad yn gyfrifoldeb y tirfeddiannwr cyfagos, nid y Cyngor. Yr unig eithriad yn yr achos yma fysa'r ffens bren rhwng y llwybr ,a phen ffordd stad Glanffynnon - Mi fuasai'n disgwyliad ar y datblygwr i osod terfyn newydd, mwy cadarn rhwng y llwybr a'r ffordd, fel er enghraifft wal cynnal fychan gyda chanllaw arno.*

*Fe welwch o'r rhestr uchod mae angen gwaith sylweddol i ddod a'r llwybr i safon fabwysiedig, a hyd yn oed petai'r perchennog yn gwella'r llwybr nid yw'n ofynnol iddo atgyweirio'r ffens i foddhau anghenion yr Uned Drafnidiaeth, h.y. mae'r broblem gyda'r ffens yn fater preifat rhwng y ddau gymydog.*

*Pe ddymunwch rwyf yn hapus i'ch cyfarfod ar y safle gyda'r perchennog i drafod yr uchod ymhellach, fodd bynnag gan nad oes modd i'r Uned Trafnidiaeth gorfodi'r perchennog i gynnal y llwybr byddai'n haws i'r cais am gyfarfod gyda Mr Trefor ddod gennych chi neu'r Cyngor Cymuned, gyda'r Uned Drafnidiaeth yn bresennol mewn rôl gynghorol yn unig.*

*Yn gywir*

*Annwyl Gynghorydd,*

*Ymhellach i'm e-bost parthed yr uchod rwyf wedi cael y siawns o ymchwilio i fewn i hanes safle'r cyn-fodurdy ynghyd a'r llwybr troed.*

*Caniatawyd cais rhif C07A/0784/23/AM ar gyfer 9 tŷ ar yr holl safle gyda amod rhif 9 o'r caniatâd amlinellol yn datgan – "rhaid adeiladu llwybr cysylltu parhaol rhwng Ffordd Llanberis a Stad Glanffynnon o'r ochr orllewinol y safle cyn cychwyn ar weddill y datblygiad. Bydd rhaid cytuno llinelliad y llwybr yn ysgrifenedig gyda'r ACLL."*

*Y sefyllfa, ers rhai blynyddoedd erbyn hyn, yw bod llwybr troed wedi cael ei greu sy'n cysylltu Stad Glanffynnon gyda Ffordd Llanberis ac i'r gorllewin o cyn-safle'r modurdy. Felly, yn hyn o beth, mae'r amod wedi cael ei gydymffurfio ag ef. Nodir nad yw'r amod yn datgan bydd rhaid cytuno gorffeniad/hwyneb y llwybr gyda'r ACLL nac ychwaith ei ddyluniad (a fyddai'n cydymffurfio a gofynion statudol mabwysiadu llwybrau cyhoeddus y Cyngor).*

*Yn anffodus, ni allaf gynnig cyngor mwy positif ar y mater yma.*

**Corlan y Rhos**

Mae trigolion Stad Corlan y Rhos wedi gofyn os yw'n bosibl cael llinell wen o flaen mynedfa i'r stad gan fod cerbydau yn parcio o'i blaen. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i hyn gan roedd yna linell wen yna rhai blynyddoedd yn ôl, ond ei bod wedi diflannu dros amser.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**484. I ystyried dyfynbrisiau a dderbyniwyd am waith codi'r cerrig beddi yn y fynwent.**

Adroddwyd yn dilyn cyfarfod mis Awst, penderfynodd y cyngor fynd allan i dendr ar gyfer y gwaith o godi'r cerrig beddi a sicrhau fod y gwaith i safon gyfredol BRAAM. Adroddodd y Clerc ei fod wedi ysgrifennu at 11 o gwmnïau yn eu gwahodd i roi tendr am y gwaith.

Roedd tri tendr wedi dod i law

Cwmni A
Cwmni B
Cwmni C

Nodwyd fod gwahaniaeth sylweddol yn y prisiau.

**Penderfynwyd:**

a) Y Clerc y gynnig y gwaith i gwmni C;
b) Hyn yn amodol i dderbyn cadarnhad bydd y gwaith yn cael ei wneud i safon llyfr glas BRAAM;
c) Y clerc i drefnu cyfarfod ar y safle gyda'r contractwr

**485. I ystyried cais gan reolwyr tîm pêl droed d12 Llewod Llanrug am allwedd ar gyfer giât Nant y Glyn.**

Adroddwyd fod gemau pêl droed cartref Llewod Llanrug d12 ar gae Nant y Glyn. Mae hyn yn creu problemau parcio i rieni ar gyfer y gemau oherwydd diffyg mannau parcio. Mae hefyd yn achosi trafferthion i drigolion lleol gyda cael mynediad ayyb i'w tai.

Mae'r rheolwyr y tîm wedi gwneud cais i'r cyngor cymuned am allwedd i'r giât fel gellir parcio ceir oddi ar Nant y Glyn, neu o leiaf rhan fwyaf ohonynt.

**Penderfynwyd:** Cytuno i roi allwedd i'r ddau reolwr ar gyfer eu gemau ond ar yr amod mai eu cyfrifioldeb hwy i'w gofalu am yr allwedd ac i sicrhau mae'r allwedd yn parhau yn eu meddiant ac nad ydynt i'w drosglwyddo i neb arall.

**486. I dderbyn adroddiad ar gyfarfod o Bwyllgor y Fynwent.**

Adroddwyd fod pwyllgor y fynwent yn y broses o

a) edrych ar reolau'r fynwent;
b) creu asesiad risg o'r holl ofod y fynwent;
c) bydd gwaith o ymestyn y llwybrau yn cychwyn yn y bythefnos nesaf;
d) fod y clerc yn creu system o ymchwilio i leoliadau beddi yn y fynwent i'w gwneud yn hawdd i leoli bedd.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**487. I dderbyn diweddara ar sefyllfa'r clwb ieuenctid**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Goronwy Hughes fod y clwb ieuenctid wedi agor yn Y Sefydliad Coffa Nos Lun ac fod 42 o blant yn bresennol. Roedd y trefniadau i weld yn gweithio ac er nad oedd yr un aelod o staff yn gallu bod yn bresennol roedd Cyngor Gwynedd wedi gofalu fod aelod arall o staff yn bresennol.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**488. I dderbyn adroddiad gan y Parchedig Robert Townsend yn dilyn ei ymweliad a Eglwys Llanrug ac yn esbonio'r drefn i wneud cais am y cofebau o'r Eglwys.**

Croesawyd y Parchedig Robert Townsend i'r cyfarfod a diolchwyd iddo am ddod. Eglurodd fod yr Eglwys nawr wedi ei chau ac nad oes dim defnydd yn cael ei gwneud ohoni nawr. Mae'r eiddo oedd tu fewn i'r Eglwys wedi eu rhannu i Eglwysi lleol eraill.

Eglurwyd, cyn i'r adeilad gael ei ddatgan yn ddiangen, bydd angen i unrhyw un sy'n dymuno symud y placiau neu'r cofebion rhyfel o adeilad yr Eglwys Mihangel Sant gyflwyno cais cyfadran i Bwyllgor Cynghori'r Esgobaeth. Mae hwn yn

bwyllgor lleol a byddai yn ei gwneud yn haws i ddelio gyda yn hytrach nac aros pan fydd yr Eglwys wedi ei throsglwyddo i Gaerdydd.

Bydd angen i'r cyngor cymuned benderfynu os ydi o am wneud cais am y cofebau sydd yn yr Eglwys ac bydd angen symud yn sydyn ar hyn.

Nodwyd fod un ar y gofeb o Cwm y Glo.

Os na fydd neb yn hawlio'r cofebau yna mae'n berygl iddynt gael eu gwerthu gyda'r adeilad.

Cadarnhaodd y Parchedig Robert Townsend ei fod yn gorffen ddiwedd y mis ac yn symud i Biwmares. Bydd y broses yn cael ei drosglwyddo i'r Parchedig Lloyd Jones ac ef fydd ein pwynt cyswllt.

**Y Wal**

Adroddwyd fod Sean Allcock wedi gorffen rhan gyntaf y gwaith ar y wal ac ei fod i ddod yn ôl ar ddechrau'r flwyddyn. Mae wedi cael ei hysbysu i adael i'r Parchedig Lloyd Jones wybod ac hefyd i gysylltu a'r cyngor cymuned.

**Mynwent yr Eglwys**

Adroddodd y Parchedig Robert Townsend fod arian a dderbyniwyd am werthu Eglwys Cwm y Glo, ddim ar gael i'w wario ar y fynwent. Adroddodd fod sefyllfa gyffelyb wedi codi ben yn Llanfair-is Gaer ac fod grŵp cymunedol wedi ei sefydlu yno i ofalu am y fynwent.

Cytunodd y Parchedig Robert Townsend i roi manylion y swyddog priodol yng Nghaerdydd i gychwyn trafodaethau ar edrych fewn i'r posibilrwydd o drosglwyddo'r fynwent i'r cyngor cymuned. Heb unrhyw oblygiadau.

**Penderfynwyd:**

a) Diolch i'r Parchedig Robert Townsend am ei adroddiad ac i ddymuno'n dda iddo yn Biwmares;
b) Ceisio manylion y pwynt cyswllt yng Nghaerdydd i bwrpas cychwyn trafodaethau a'r clerc i gysylltu a hwy;

**489. I ystyried oblygiadau i'r cyngor gyda Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

Adroddwyd gan y clerc**,** mae'n ofynnol ar awdurdodau cyhoeddus (sydd yn cynnwys Cynghorau Cymuned) o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd Cymru 2016 i baratoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu'r hyn y bwriadir ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i Gynnal a Chryfhau Bioamrywiaeth o fewn eu meysydd gwaith presennol.

Adroddwyd fod yn ofynnol i'r polisi gael ei gyhoeddi cyn ddiwedd y flwyddyn ac wedyn ei adolygu bob tair blynedd.

**Penderfynwyd:**

a) Cytunwyd i greu polisi i gydymffurfio a'r Ddeddf;
b) Y rannu gwybodaeth gyda'r pwyllgor hamdden yn y lle cyntaf;
c) Y pwyllgor hamdden i greu polisi drafft

**490. Cais Cynllunio**

a) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/0829/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Bryngwyn Mawr, Llanrug, Caernarfon, LL554RG

**Dyddiad Cofrestru:** 03/09/2019

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Dymchwel tŷ presennol a chodi tŷ newydd yn ei le

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

b) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/0818/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Penlon, Llanrug, Caernarfon, LL554AP

**Dyddiad Cofrestru:** 06/09/2019

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Codi sied amaethyddol ar gyfer diben storio cyfarpar offer

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

c) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/0809/23/TD

**Lleoliad y Safle:** Fferm Bodrual, Rhosbodrual, Caernarfon, Gwynedd, LL552BH

**Dyddiad Cofrestru:** 23/08/2019

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Cais am dystysgrif o ddatblygiad amgen ar gyfer dau ddefnydd 'diwydianol' a 'masnachol'

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

d) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/0765/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Stad Hafan Elan, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL554BU

**Dyddiad Cofrestru:** 13/08/2019

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Creu llecynnau parcio newydd a ffurfioli'r drefn barcio bresennol

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

**491. Torri gwair o flaen ystadau Llanrug.**

Adroddwyd fod cais wedi dod i law i'r cyngor cymuned dorri gwair o flaen mynediad i ystadau yn Llanrug.

**Penderfynwyd:**

Nodwyd fod y cytundebau presennol ar gyfer torri gwair ar gyfer y fynwent a'r meysydd chwarae yn dod i ben eleni ac nid oedd gofyn yn y

gytundeb bresennol i dorri gwair o flaen ystadau. Adroddwyd gan y clerc, mae'n bosib byddai hyn yn creu cymhlethdodau o ran y contractwyr ar hyn o bryd oherwydd mae'n debygol byddai torri gwair ar y llecynnau yma yn dod oddi tan reolau gweithio ar y briffordd a byddai angen caniatâd ynghyd a cymwysterau priodol megis iechyd a diogelwch.

**Penderfynwyd:** Peidio a cytuno i dorri gwair o flaen ystadau ar hyn o bryd.

Daeth i cyfarfod i ben am 21:26

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: